# Enwau Lleoedd Rhufeinig

Dydyn ni ddim yn gwybod beth oedd enw'r Rhufeiniaid ar Gelligaer, na llawer o leoedd eraill lle mae eu gweddillion ar ôl, ond rydym yn gwybod pa enwau oedd ganddynt ar rai mannau eraill.

Defnyddiwch y rhyngrwyd i lenwi'r lleoedd gwag yn y grid isod. Pan fyddwch wedi cwblhau'r grid, dewch o hyd i fap o Gymru a marcio'r safleoedd Rhufeinig hyn ar y map.

| Enw Modern | Enw Rhufeinig |
|---|---|
| Caerhun | |
| | Isca Silurium |
| Caernarfon | |
| Caerwent | |
| | Moridunum |
| Brynbuga | |
| Y Gaer (gerllaw Aberhonddu) | |
| | Segontium |
| | Leucarum |
| Castell Nedd | |
| | Gobbanium |

## Ystyriwch a chwiliwch am yr ateb:

Edrychwch ar yr enwau lleoedd modern. Beth sylwch chi am y ffordd mae llawer o'r enwau'n cychwyn? Allwch chi ganfod tri enw lle arall yng Nghymru sy'n cychwyn yr un fath? Ceisiwch ganfod a yw'r Rhufeiniaid wedi bod yno.

Ceisiwch ddod o hyd i dri lle arall yng Nghymru lle mae'r Rhufeiniaid yn sicr wedi bod ond sydd heb yr un cychwyniad i'r enw.

# Ffeithiau Rhyfedd am y Rhufeiniaid

Roedd gan y Rhufeiniaid rai syniadau oedd yn wahanol iawn i'n rhai ni ac roedden nhw'n gwneud pethau sydd efallai'n swnio'n rhyfedd i ni heddiw. Isod mae ffeithiau rhyfedd am y Rhufeiniaid. Edrychwch arnynt yna ceisiwch ganfod dwy ffaith ryfedd arall a'u hysgrifennu yn y gwagle sydd wedi'i adael i chi.

### Ffaith 1

Weithiau roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio ymennydd llygod wedi sychu'n bowdr fel pâst dannedd!

### Ffaith 2

Mewn un wledd yn Rhufain, rhoddwyd cannoedd o ymennydd estrys i'r gwesteion eu bwyta!

### Ffaith 3

Roedd Iwl Cesar yn casáu colli ei wallt felly fe'i gwnaeth hi'n anghyfreithlon i unrhyw un sefyll yn uwch nag ef ac edrych i lawr arno. Os byddech chi'n edrych i lawr ar ei ben moel, gallech gael eich lladd!

### Ffaith 4

Roeddent yn defnyddio gwe pry cop i atal gwaedu.

### Ffaith 5

Roedd pobl yn Rhufain oedd yn gwneud eu bywoliaeth drwy dynnu blew o geseiliau pobl!

### Ffaith 6

Roedd gan gladiatoriaid a raswyr cerbydau rhyfel gefnogwyr fel ein pêl droedwyr ni heddiw!

### Ffaith 7

Pan orchmynnwyd y milwyr Rhufeinig i oresgyn Prydain am y tro cyntaf yn 43 AD, aethent ar streic am fod Prydain y tu hwnt i'r byd roedden nhw'n ei nabod ac roeddent yn ofni y byddai anghenfilod yma.

### Ffaith 8

Yn ôl yr hanes, roedd Romulus and Remus, sylfaenwyr Rhufain, wedi cael eu magu gan flaidd!

### Fy ffaith i

### Fy ffaith i

# Disgrifiadau a Lluniau

Edrychwch ar yr wybodaeth isod. Gan ddefnyddio'r disgrifiadau yma, dychmygwch sut y byddai milwr Rhufeinig o'r gaer yng Ngelligaer a rhyfelwr Silwraidd yn edrych, a thynnwch lun o'r ddau.

## Milwr Ategol Rhufeinig

- Dim barf na mwstas / Gwallt Byr
- Tiwnig o wlân (yn goch yn aml iawn ond roedd milwyr ategol yn gwisgo lliwiau eraill weithiau)
- Helmed metel / Arfwisg fyddai wedi'i wneud o fael yn aml iawn
- Gladius (cleddyf) / Tarian Hirgron (roedd gan lengfilwyr rai siâp petryal fel arfer)
- Sandalau cryfion

## Rhyfelwr Silwraidd

- Gwallt pigog / mwstas hir
- Corff wedi'i addurno gyda phatrymau
- Trowsus a chlogyn
- Torch o amgylch ei wddf / tlws yn dal y clogyn
- Cleddyf / tarian gron

# Misoedd Rhufeinig

Ar y chwith isod mae enwau'r misoedd Rhufeinig a'r enwau sydd gennym arnynt heddiw. Ar y dde mae'r rhesymau y cawsent eu henwau. Mae'r rhesymau yn y drefn anghywir. Tynnwch linell rhwng enw'r mis a'r rheswm cywir am yr enw.

| | |
|---|---|
| Januarius (Ionawr) | Genedigaeth Iwl Cesar – yn wreiddiol ei enw oedd Quintillis 'y pumed mis' |
| Februarius (Chwefror) | 'Y Nawfed Mis' |
| Martius (Mawrth) | 'Y Degfed Mis' |
| Aprilis (Ebrill) | Y duw Janu |
| Maius (Mai) | Duwies Aprilis yr Etrwsgiaid |
| Junius (Mehefin) | Y seithfed Mis |
| Julius (Gorffennaf) | Mars y duw rhyfel |
| Augustus (Awst) | Gwyliau Februa – diwedd yr hen flwyddyn Rufeinig |
| Medi | Genedigaeth Awgwstws Cesar – ei enw gwreiddiol oedd Sextilis 'y Chweched Mis' |
| Hydref | Maia duwies y ddaear |
| Tachwedd | Y dduwies Juno |
| Rhagfyr | Yr Wythfed Mis' |

**Ystyriwch:**


Ar un cyfnod, dim ond deg mis oedd gan y Rhufeiniad. Pa gliw allwch chi ei ganfod i awgrymu hynny? Pa gliw sydd yna i ddangos bod y Rhufeiniaid yn addoli duwiau pobl eraill yn ogystal â'u duwiau eu hunain?

# Lladin yn y Dosbarth

Roedd y Rhufeiniaid yn siarad Lladin. Mae'r arysgrif ar garreg Gelligaer yn yr iaith Ladin.

O dan y garreg fe welwch rai geiriau Lladin am bethau yn yr ystafell ddosbarth.
Defnyddiwch y lluniau i'ch helpu i gyfateb y geiriau Lladin gyda'u hystyr yn Gymraeg.

**Charta**




**Erasura**



**Fenestra**



**Foruli**



Bwrdd ar gyfer ysgrifennu

Wal

Rhwbiwr

Papur

Drws

Cwpwrdd Llyfrau

Ffenestr

Cadair

**Ianua**



**Mensa ad Scribendum**



**Murus**



**Sella**



# Rhifau Rhufeinig

Roedd rhifau Rhufeinig yn edrych yn wahanol iawn i'n rhifau ni. Yn wir, roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio llythrennau o'r wyddor i greu eu rhifau. Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i ateb y cwestiynau sy'n dilyn.

| Unedau | Degau | Cannoedd | Miloedd |
|---|---|---|---|
| I = 1 | X = 10 | C = 100 | M = 1000 |
| II = 2 | XX = 20 | CC = 200 | MM |
| III = 3 | XXX = 30 | CCC = 300 | MMM |
| IV = 4<br>(1 yn llai na 5) | XL = 40<br>(10 yn llai na 50) | CD = 400<br>(100 yn llai na 500) | MMMM |
| V = 5 | L = 50 | D = 500 | MMMMM |
| VI = 6<br>(1 yn fwy na 5) | LX = 60<br>(10 yn fwy na 50) | DC = 600<br>(100 yn fwy na 500) | MMMMMM |
| VII = 7 | LXX = 70 | DCC = 700 | MMMMMMM |
| VIII = 8 | LXXX = 80 | DCCC = 800 | MMMMMMMM |
| IX = 9<br>(1 yn llai na 10) | XC = 90<br>(10 yn llai na 100) | CM = 900<br>(100 yn llai na 1000) | MMMMMMMMM |

Edrychwch ar y rhifau Rhufeinig yma a gweithiwch allan beth ydynt yn ein rhifau modern ni.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| VII | | XVI | | DCCCII | |
| XX | | LIX | | CCXXII | |
| III | | DVIII | | CDXL | |
| DCC | | LI | | MCC | |
| M | | CXX | | MMCIV | |

# Posau Rhifau Rhufeinig

1. Roedd 6 o farics yng Ngelligaer. Os oedd 80 o ddynion ymhob un, faint o ddynion fyddai yno i gyd?

2. Roedd wyth milltir rhwng Gelligaer a'r gaer Rufeinig ym Mhenydarren, a chwe milltir o Gelligaer i'r gaer yng Nghaerffili. Os byddai milwr yn gorymdeithio o Benydarren i Gelligaer ac yna o Gelligaer i Gaerffili, pa mor bell fyddai wedi gorymdeithio?

3. Roedd y milwyr yng Ngelligaer yn filwyr ategol. Fel arfer roedd yn rhaid iddynt wasanaethu yn y fyddin am 25 o flynyddoedd cyn dod yn ddinasyddion Rhufeinig. Os byddai milwr yn ymuno yn 18 oed, beth fyddai ei oed pan fyddai'n gadael y fyddin ac yn dod yn ddinesydd?

4. Roedd y darn arian Rhufeinig o'r enw denarius werth pedair gwaith cymaint â'r darn arian o'r enw sestertius. Os byddai gan filwr 16 sestertius, sawl denarius fyddai hynny werth?

5. Roedd 16 as mewn denarius. Os byddai gan filwr 5 denariws, sawl as fyddai hynny werth?

6. Roedd disgwyl i filwyr Rhufeinig orymdeithio 20 milltir mewn diwrnod. Os bydden nhw'n gwneud hynny am 6 diwrnod, sawl milltir fydden nhw wedi'u teithio?

7. Os bydden nhw'n gorymdeithio 5 milltir yr awr ac yn cymryd hanner awr o egwyl hanner ffordd, faint o amser fydden nhw'n ei gymryd i orymdeithio 20 milltir?

8. Os bydden nhw'n gorymdeithio 5 milltir yr awr, pa mor hir fydden nhw'n ei gymryd i orymdeithio'r 6 milltir i Gaerffili?

9. Roedd 480 o ddynion mewn mintai (sef nifer y milwyr ategol arferol yng Ngelligaer mae'n debyg). Roedd 10 mintai mewn Lleng. Sawl dyn fyddai hynny?

10. Os oedd 12,000 o ddynion yn y fyddin a'u hanner nhw'n filwyr ategol, faint o filwyr ategol oedd yna?

# Dilyn Gorchmynion

Roedd y milwyr yng Ngelligaer yn filwyr ategol. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n ddynion fyddai wedi gallu dod o unrhyw ran o'r Ymerodraeth Rufeinig. Efallai nad oedden nhw'n siarad Lladin yn eu bywydau pob dydd ond byddent wedi gorfod dysgu sut i ddilyn gorchmynion Lladin. Isod mae rhai o'r gorchmynion oedd yn cael eu defnyddio.

Edrychwch arnyn nhw a darllenwch eu hystyr. Bydd eich athro/athrawes yn dewis un ohonoch i ddod allan a rhoi gorchymyn (neu efallai fwy nag un). Byddwch yn rhoi'r gorchymyn rydych wedi'i ddewis ac mae'n rhaid i'r lleill wrando arnoch.

Os nad ydynt yn siŵr beth yw ystyr y gorchymyn, dylent edrych amdano ar y daflen ac yna weld pa mor gyflym y gallant ufuddhau.

| | |
|---|---|
| Surgite | Sefwch! |
| Genua flectite | Penliniwch! |
| State | Talwch Sylw! |
| Procidite Attente | Symudwch – Gorymdeithiwch! |
| Consistite | Arhoswch! |
| Ad Dextrum Clina | Trowch i'r dde! |
| Ad Sinistrum Clina | Trowch i'r chwith! |
| Transformate Clina | Trowch i wynebu'r cyfeiriad arall! |
| Accelerate | Gorymdeithiwch yn Gyflym! |
| Tardate | Arafwch |
| Mittite | Taflwch |
| Gladios Stringite | Tynnwch eich Cleddyfau! |
| Gladios Condite | Rhowch eich Cleddyfau i'w Cadw |
| Laxate | Ymlaciwch! |

# Oedd ganddo.....?

Edrychwch ar yr eitemau yn y rhestr isod. Ticiwch y rheiny y byddech chi'n disgwyl i filwr yng Ngelligaer eu cael a rhowch groes wrth y rhai fyddai, yn eich barn chi, wedi bod yn amhosibl iddo fod yn berchen arnynt.

- ☐ Cleddyf
- ☐ Olew olewydd
- ☐ Afal pîn
- ☐ Wats
- ☐ Beiro
- ☐ Darn o gaws
- ☐ Potyn wedi'i wneud o glai
- ☐ Game Boy
- ☐ Pluen
- ☐ Gwn
- ☐ Pâst dannedd
- ☐ Migyrnau moch
- ☐ Cap pêl fasged
- ☐ Darnau arian
- ☐ Pliciwr blew
- ☐ Sbwng
- ☐ CD
- ☐ Helmed
- ☐ Cylchgrawn
- ☐ Gemwaith

Ystyriwch:

Dewiswch ddwy eitem fyddai gan y milwr a dau na fyddai ganddo.
Rhowch eich rhesymau am eich dewisiadau.

| | Dwy eitem fyddai gan filwr efallai | Rheswm |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |

| | Dwy eitem na fyddai gan filwr | Rheswm |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |

# Diwrnod ym Mywyd Milwr

Rydych yn filwr ategol yng Ngelligaer. Dychmygwch eich bod yn ysgrifennu adref i ddisgrifio diwrnod arferol yn eich bywyd. Efallai y bydd y llinell amser isod yn eich helpu i feddwl am syniadau.

**Codi gyda'r wawr**
Gwisgo, mynd i'r toiled, c ael brecwast.

**Galw'r Gofrestr**
Archwiliad, derbyn eich dyletswyddau ar gyfer y diwrnod.

**Hyfforddi**
Gan gynnwys ymarfer corff, defnyddio arfau, rhedeg, ac ati.

**Dyletswyddau dyddiol**
Gallai'r rhain fod yn unrhyw beth o gadw cofnodion ysgrifenedig i dorri cerrig mewn chwarel.

**Pryd bwyd gyda'r nos**
Roedd yn rhaid i filwr baratoi ei fwyd ei hun neu ei brynu wedi'i baratoi gan fasnachwr, heblaw bara oedd yn cael ei roi i bob milwr.

**Amser rhydd**
Dyma pryd y byddai milwyr yn gallu mynd i'r baddonau neu fannau hamdden eraill.

**Barics**
Yn ôl i'r barics heblaw bod dyletswydd nos i'w gwneud.

# Offer Milwyr Rhufeinig

Yn y chwilair, dewch o hyd i enwau'r eitemau y byddai milwr Rhufeinig yn eu cario neu'n eu gwisgo. Mae'r geiriau wedi'u rhestru o dan y grid.

GLADIUS
SCUTUM
LORICA
TUNICA
CALIGAE
SARCINA
DOGNAU
CINGULUM
PUGIO
JAVELIN
RHAW
CROEN DWR
CLOG

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W | A | T | E | G | S | LL | A | C | I | R | O | L |
| CH | T | R | O | I | A | A | I | DD | A | O | L | C |
| R | A | L | H | R | O | T | N | N | T | E | Y | D |
| C | C | N | P | H | I | S | I | I | E | C | O | R |
| C | Y | I | U | A | S | C | P | O | R | G | O | W |
| I | F | L | F | W | R | O | A | S | N | L | B | D |
| N | A | E | O | A | H | I | R | A | DD | S | S | N |
| G | R | V | S | P | R | G | U | E | I | U | R | E |
| U | E | A | C | I | N | U | T | T | N | I | U | O |
| L | H | J | U | R | E | P | B | N | R | D | S | R |
| U | A | A | T | R | C | A | L | I | G | A | E | C |
| M | N | I | U | Y | L | D | E | CH | S | L | S | E |
| L | A | P | M | S | A | A | E | L | A | G | E | T |

## Ceisiwch ganfod:

1. Beth oedd gladius?
2. Ar ba ran o'r corff fydden nhw'n gwisgo galea?
3. O beth oedden nhw'n gwneud y lorica?
4. Pa rai o'r eitemau yma fydden nhw'n eu defnyddio i gario offer?
5. Lle fyddai milwr yn rhoi ei cingulum?
6. Sut fyddai milwr yn cario ei sarcina?
7. O beth fyddai'r tunica wedi'i wneud?
8. Lle fyddai milwr yn gwisgo ei caligae?
9. O beth fyddai'r daliwr d_r wedi'i wneud?
10. Beth oedd pwrpas y rhaw?

# Awydd bod yn filwr......?

Roedd milwyr ategol fel y rhai yng Ngelligaer yn dod o bob rhan o'r Ymerodraeth Rufeinig. Roedd llawer o ddynion yn awyddus iawn i ymuno fel milwyr ategol.

Isod mae rhai o'r rhesymau dros benderfynu ymuno â'r fyddin, neu dros benderfynu peidio ymuno. Dychmygwch eich bod yn ystyried ymuno. Rhannwch y rhesymau yma'n ddau grŵp – rheiny fyddai'n gwneud i chi fod eisiau ymuno a'r rheiny fyddai efallai'n gwneud i chi ddewis peidio.

✓ FOR YES, ✗ FOR NO

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Bydd raid i chi aros yn y fyddin am hyd at 25 mlynedd. | ☐ |
| 2 | Byddwch yn cael cyflog rheolaidd. | ☐ |
| 3 | Byddwch yn cael cyfle i deithio. | ☐ |
| 4 | Fyddwch chi ddim yn gallu mynd adref i weld eich teulu yn aml, os o gwbl. | ☐ |
| 5 | Ar ddiwedd eich gwasanaeth byddwch yn dod yn ddinesydd Rhufeinig. | ☐ |
| 6 | Mae'r cosbau a roddir i filwyr yn galed iawn, gan gynnwys chwipio. Mae rhai milwyr hyd yn oed yn cael eu lladd fel cosb. | ☐ |
| 7 | Ni fyddwch yn cael gwraig nes i chi adael y fyddin. | ☐ |
| 8 | Bydd raid i chi ddysgu llawer o orchmynion Lladin. | ☐ |
| 9 | Bydd raid i chi dalu am lawer o'ch offer, gan gynnwys eich arfau. | ☐ |
| 10 | Bydd rhywfaint o'ch cyflog wedi'i gymryd oddi arnoch i dalu am bensiwn ar ôl i chi adael y fyddin ac ar gyfer eich angladd wedi i chi farw. | ☐ |
| 11 | Bydd disgwyl i chi dreulio llawer o amser yn hyfforddi ac yn cadw'n heini. | ☐ |
| 12 | Yn aml iawn byddwch mewn mannau peryglus lle gallech gael eich lladd. | ☐ |
| 13 | Pan fyddwch yn gorffen yn y fyddin byddwch yn cael arian a thir. | ☐ |
| 14 | Bydd raid i chi ufuddhau i bob gorchymyn. | ☐ |
| 15 | Bydd disgwyl i chi orymdeithio tua 20 milltir bob dydd, gan gario offer trwm. | ☐ |
| 16 | Mae'n debyg y bydd y llengfilwyr yn meddwl eu bod yn well na chi. | ☐ |
| 17 | Byddwch yn cael rhan o unrhyw gyfoeth sy'n cael ei gipio mewn brwydr. | ☐ |
| 18 | Bydd pobl yn gwybod eich bod yn filwr dim ond o edrych arnoch chi. | ☐ |

# Gwneud Mosaig

Yn ôl yr hanes, mae rhai pobl wedi gweld gweddillion mosaig gerllaw Caer Rufeinig Gelligaer. Os yw hyn yn wir, dydy'r mosaig ddim i'w gael yno erbyn heddiw. Fel arfer roedd pobl yn defnyddio mosaig i addurno cartrefi preifat ac adeiladau swyddogol crand.

Yn gyntaf roedd yn rhaid cynllunio'r mosaig, yna byddent yn rhoi plastr gwlyb dros ran o'r llawr. Byddent yn gwasgu sgwariau bach o deils, gwydr neu garreg i mewn i'r plastr i greu'r patrwm. Pan fyddai'r plaster wedi sychu, byddai'n dal y llun yn ei le.

Cynlluniwch fosaig yn y grid isod. Mae croeso i chi ddefnyddio dim ond hanner sgwâr os byddwch angen. Ar y dudalen nesaf mae llun o fosaig modern yng Ngelligaer allai eich helpu.

Gallwch wneud eich mosaig eich hun gan ddefnyddio clai sy'n sychu yn yr aer a theils bach, ond os nad oes gennych y pethau yma, gallwch greu mosaig ar gerdyn.

Cymerwch ddarn o gerdyn ac amlinellwch eich cynllun yn ysgafn arno. Yna byddwch angen ychydig bach o baent. Dylech ddefnyddio stampiau sgwar bychain ond gallwch ddefnyddio blaenau eich bysedd os dewiswch! Os ydych eisiau siapiau mwy rheolaidd, mae glain (*bead*) bach sgwar yn gweithio'n dda hefyd.

Yn gyntaf, gwnewch y border o amgylch yr ymylon drwy roi eich bys yn y lliw cyntaf a'i wasgu'n ysgafn lle'r ydych eisiau i'r 'teil' fod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn golchi eich bys cyn newid lliw.

Pan fyddwch wedi gorffen y border, gwewch yr un peth i adeiladu eich cynllun.


Roedd rhai o'r moseigiau Rhufeinig yn cynnwys geiriau e.e. "Caveat Canis" – "Gwyliwch Rhag y Ci". Roedd eraill yn dangos anifeiliaid y môr, bwydydd, duwiau a dim ond patrymau, felly mae digon o ddewis i chi.



# Gwneud Bwla

Roedd bwla yn fath o goden neu loced yr oedd plant Rhufeinig yn eu gwisgo. Roedd i fod i roi lwc dda iddynt a'u cadw'n ddiogel rhag ysbrydion drwg. Roedd rhai yn godenni wedi'u gwneud o ddefnydd ond roedd rhai wedi'u gwneud o fetel. Roedd plant yn cael y rhain yn fuan ar ôl cael eu geni. Roedd merched yn eu gwisgo nes byddent yn priodi. Roedd bechgyn yn eu gwisgo nes byddent yn ddigon hen i ddod yn ddinasyddion. Weithiau roedd bechgyn yn eu gwisgo eto ar gyfer achlysuron arbennig e.e. os oeddent wedi ennill gwobr am ddewrder.

Roedden nhw'n cael eu gwneud o wahanol ddefnyddiau, a hefyd byddent yn cael eu creu mewn gwahanol siapiau. Gallech ddefnyddio'r cynllun isod, neu greu eich cynllun eich hun.



1. Torrwch gylch allan o ddefnydd. Defnydd sydd ddim yn rhaflo fyddai orau.
2. Addurnwch ef os dewiswch.
3. Torrwch dyllau'n rheolaidd o amgylch yr ymyl. Peidiwch â mynd yn rhy agos at yr ymyl.
4. Cymerwch ddarn o linyn neu ruban a'i wnïo drwy'r tyllau. Tynnwch hwn yn dynn i wneud coden.
5. Rhowch rywbeth ynddo i ddod â lwc dda Rufeinig i chi.
6. Defnyddiwch weddill y llinyn i'w hongian o amgylch eich gwddf. .

# Carreg o'r Porth

Dyma lun o'r garreg gydag arysgrif arni y cafwyd hyd iddi yng Nghaer Rufeinig Gelligaer. Rydych chi'n llunio carreg debyg ar gyfer porth Rhufeinig. Gwnewch fraslun o'ch cynllun ar gyfer y garreg, gan gynnwys arysgrif, yn y lle gwag isod.




Cymerwch ddarn o glai sy'n sychu yn yr aer a'i rolio allan yn wastad. Cyn ei dorri i'w siâp, crafwch amlinelliad eich cynllun ar y clai a defnyddio sbatwla pren i dorri'r siâp allan. Gallech ddefnyddio'r clai sydd ar ôl i wneud ychydig o addurniadau 3D ychwanegol arno. Crafwch eich arysgrif ar wyneb y dabled glai.

**Ystyriwch:**

Beth arall fyddech chi wedi gallu ei ddefnyddio i wneud model o'r garreg? Ceisiwch wneud fersiwn arall gan ddefnyddio defnyddiau eraill.

# Y Ditectif Sbwriel

Yn aml iawn mae archeolegwyr yn defnyddio'r pethau roedd pobl wedi'u colli neu wedi'u taflu fel sbwriel yn y gorffennol i'w helpu i gael gwybodaeth am y bobl oedd yn byw ar safle.

Os byddai rhywun filoedd o flynyddoedd yn y dyfodol yn cloddio'r tir ac yn dod o hyd i'ch sbwriel chi, neu bethau rydych chi wedi'u colli, byddent yn gallu defnyddio'r pethau yma i ddysgu rhywbeth am eich bywyd – fel ditectif yn edrych ar gliwiau.

Edrychwch ar y cliwiau yn y biniau sbwriel yma. Beth allwch chi ei ganfod o'r rhain?

- Croen tatws
- Bag plastig gyda briwsion bara ynddo
- Potel saws wag
- Mwg wedi torri
- Potel sebon golchi llestri wag
- Plisgyn wyau

- Darn o bapur wedi'i grychu
- Pensil wedi torri
- Rholyn gwag o dâp selo
- Pacedi creision
- Sticer wedi rhwygo

- Hen bâr o drenyrs
- Crys T wedi gwisgo
- Comics
- Llythyr gan athro
- Paced fferins gwag
- Gwaith cartref gyda cola wedi colli arno
- Tegan wedi torri

- Bil o'r archfarchnad
- Papur o far o siocled
- Tun bwyd ci gwag
- Hen gylchgrawn
- Crib wedi torri

Beth am sbwriel Rhufeinig?

- Cregyn
- Esgyrn migyrnau moch
- Darn o arian
- Jar wedi torri gyda gweddillion olew ynddo
- Esgyrn cyw iâr

# Grid Archeolegol

Y garreg yma gyda'r arysgrif arni oedd un o'r pethau y cafwyd hyd iddi yng Nghaer Rufeinig Gelligaer. Mae'n rhaid i archeolegwyr gofnodi yn union lle cafodd gweddillion eu canfod. I'w helpu i gadw cofnod o'r pethau gafodd eu canfod, maen nhw'n defnyddio system grid fel yr un a welwch isod.

Tynnwch lun o'r eitemau yma yn ochr dde'r grid.

- Llafn gladius (cleddyf) yn A2
- Darn o grochenwaith wedi torri yn D2
- Darn o arian yn D3 ac yn E4
- Carreg wedi'i cherfio yn E1
- Tun modern yn B1
- Modrwy yn C3




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | |
| 2 | | | | | |
| 3 | | | | | |
| 4 | | | | | |
| | A | B | C | D | E |

Meddyliwch:

Pa un sydd fwyaf tebygol o fod wedi rhydu? Pam?

Pam allech chi ganfod sbwriel modern ar safle archeolegol?

Os oedd y person a gollodd y fodrwy wedi colli torth o fara hefyd, pam na fyddech chi wedi dod o hyd i honno heddiw?

# Archeoleg Bwyta

Pan oedd archeolegwyr yn cloddio Gelligaer, daethant o hyd i weddillion dwy ysgubor (lle i storio grawn). Mae hyn yn dweud ychydig wrthym am y pethau roedd y Rhufeiniaid yn ei fwyta ond weithiau roedd archeolegwyr yn dod o hyd i dystiolaeth arall hefyd.

Maent yn gyffro i gyd pan fyddent yn dod o hyd i garthion dynol sydd wedi cadw! O hwn gallent ddweud beth roedd pobl yn ei fwyta a hyd yn oed os oedd ganddynt lyngyr yn byw tu mewn iddynt!

Dyma rai o'r eitemau bwyd y cafwyd hyd iddynt ar safleoedd Rhufeinig yng Nghymru.

| Y pethau cafwyd hyd iddynt? | Lle cafwyd hyd iddynt? |
|---|---|
| Esgyrn pysgod | Aberhonddu a Chaernarfon |
| Ceirios | Caerhun (mewn amffora) |
| Esgyrn colomennod | Caerwent |
| Dil (per-lysieuyn) | Caernarfon a Chaerwent |
| Hadau Coriander (per-lysieuyn arall) | Caerwent |
| Gwin | Caerwent (wedi'i ysgrifennu ar amffora) |
| Esgyrn cyw iâr | Caerleon (yn y baddonau) |
| Golwython oen a dafad | Caerleon (yn y baddonau) |
| Asennau mochyn | Caerleon (yn y baddonau) |
| Traed mochyn | Caerleon (yn y baddonau) |
| Cregyn wystrys | Caerleon (yn y baddonau) |
| Hadau radis | Caerleon |
| Corbys | Caerleon |
| Cerrig olewydd | Caerleon |

## Ceisiwch ganfod:

Lle yn union yng Nghymru mae'r mannau yma? Edrychwch i weld a allwch chi ddod o hyd iddynt ar fap.

Beth yw amffora?

Os nad ydych yn adnabod rhai o'r bwydydd, ceisiwch ganfod beth ydynt.

## Meddyliwch:

Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o fwyd wedi'i ganfod yn y baddonau yng Nghaerleon?

Dychmygwch fod gennych blât cinio. Ar hwn mae gweddillion pryd bwyd. Mae esgyrn o adain cyw iâr, sglodion, rholyn o fara gyda hadau arno ac ychydig o bys. O'r pethau ar y plat, pa rai fyddai archeolegydd yn y dyfodol fwyaf tebygol o gael hyd iddynt? Pam?